



DARLLENWCH  
Luc 2: 1-7



ADNOD  
ALLWEDDOL  
2 Corinthiaid 8:9

### Gwers 3 Gorfoledd y Nadolig! – Genedigaeth Iesu

Roedd Duw wedi dweud y byddai'r Meseia yn cael Ei eni ym Methlehem, ond roedd Mair a Joseff yn byw yn Nasareth, 70 milltir i ffwrdd. Pan benderfynodd Cesar Awgustws, yr Ymerawdwr Rhufeinig, gynnal cyfrifiad o bawb oedd yn byw yn yr ymerodraeth, roedd e, heb yn wybod iddo, yn helpu i gyflawni cynllun Duw! Bu'n rhaid i Mair a Joseff deithio i Fethlehem i gofrestru. Tra'r oedden nhw yno, ganwyd y Baban yn yr union ddinas roedd Duw, rhyw 700 mlynedd ynghynt, wedi addo y byddai hynny'n digwydd.

**C** Ar ôl darllen pob brawddeg, rhowch gylch o amgylch y llythyren gywir o dan **GWIR** neu **ANWIR**:

	<b>GWIR</b>	<b>ANWIR</b>
Roedd yn rhaid i bawb fynd i'w dref ei hun	C	I
Aeth Joseff o Fethlehem i Nasareth	O	R
Aeth Mair gyda Joseff	I	P
Ganwyd y Baban yn Nasareth	E	S
Doedd dim lle yn y llety	T	F

3

Pa air sy'n cael ei sillafu gan y llythrennau a gylchwyd? \_ \_ \_ \_ \_

**C** Pa adnod sy'n dweud wrthym ble'r aeth Joseff?

Adnod

Pa adnod sy'n dweud wrthym i Mair fynd gydag e?

Adnod

Pa adnod sy'n dweud wrthym mai Bethlehem yw dinas Dafydd neu fod y Brenin Dafydd wedi ei eni yno?

Adnod

Pa adnod sy'n dweud wrthym fod y Baban wedi Ei ddodi mewn preseb?

Adnod

4


## CROESAIR

### Cliwiau I Lawr

- Roedd Cyrenius yn llywodraethu ar \_\_\_\_\_.
- Dodwyd y Baban yn hwn.
- Yr ardal lle roedd Bethlehem.
- Roedd y lle hwn yn llawn.

### Cliwiau Ar Draws

- Awgustws \_\_\_\_\_ oedd enw'r dyn a roddodd orchymyn.
- Yr ardal lle'r oedd Nasareth.



6

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.


3

Er i Iesu gael Ei eni'n faban, Mab Duw oedd Ef. Daeth o'r Nefoedd i'r ddaear er mwyn Iddo dyfu'n ddyn a marw. Daeth i'r byd yn dlawd a dododd Mair Ef i orwedd mewn preseb – cafn sy'n dal bwyd anifeiliaid!

**C** Pam nad oedd modd iddyn nhw aros yn y llety? Cymerwch lythyren gyntaf pob llun i gael yr ateb.



Doedd \_\_\_\_\_

1

**C** Defnyddiwch y cod sy'n dilyn i ddarganfod beth wnaeth Duw.

a=1, b=2, c=3, ch=4, d=5, dd=6, e=7, f=8, ff=9, g=10, ng=11, h=12, i=13, l=14, ll=15, m=16, n=17, o=18, p=19, ph=20, r=21, rh=22, s=23, t=24, th=25, u=26, w=27, y=28

18/1/7/5 19/1/1/7 6/1/7/2/5 3/28/8/14/1/27/17/13/1/5 28/21 1/16/23/7/21,

1/1/7/8/18/17/18/6 5/26/27 7/13 8/1/2, 27/7/5/13 7/13 7/17/13 18 27/21/1/13/10

3

Doedd dim lle i Iesu pan ddaeth Ef i'r byd yn faban.

**Heddiw, oes gyda chi  
le yn eich calon  
a'ch bywyd i'r  
Arglwydd Iesu?**



*Dim lle yn y llety i'r Baban di-nam,  
Preseb roed Iddo'n grud.  
Dim lle ar ein dae'r i fendigaid Fab Duw,  
Cartref ni fedd 'ny byd.  
Croesbren a phoen - dyna'r oll roed i'n lôr,  
Beddrod ail-law ga'dd E'.  
Mae'n gofyn am noddfa'n dy galon yn awr,  
Ai yr un fydd dy ateb:- "Dim lle"?*